Cynllun Cydraddoldeb Anabledd 2006 - 2009

Adroddiad Blynyddol

IONAWR 2009

Cynnwys

		TUDALEN
1.	Cyflwyniad	3
2.	Ymrwymiad i Gydraddoldeb Anabledd a Chefndir y Cynllun	3
3.	Crynodeb o'r Prif Gynnydd yn 2007/2008	4
	Arweinyddiaeth ac Ymrwymiad Corfforaethol	4
	Ymgynghori, Datblygu Cymunedol a Chraffu	6
	Cyflenwi Gwasanaeth a Gofal Cwsmeriaid:	8
	Gwasanaethau Plant	8
	Gwasanaethau Synhwyraidd Gwell ar gyfer y Byddar	9
	Gwasanaethau Gwell ar gyfer Pobl â Nam ar eu Golwg	10
	Gwelliannau i Adeiladau o dan y Ddeddf	11
	Gwahaniaethu ar Sail Anabledd	
	Cysylltu â Blaenau Gwent (C2BG)	13
	Cyflogaeth a Hyfforddiant	13
	Llwybr Cyflogi: Mynediad i Bawb	14
	Digwyddiadau/Sesiynau Ymwybyddiaeth	15
	Prosiectau:	
	Prosiect Cymunedau 'Switched On' – Prosiect Asesu o Bell Cymru	16
4.	Meysydd Allweddol ar gyfer Gweithredu:	18
	Arweinyddiaeth ac Ymrwymiad Corfforaethol	
	Ymgynghori, Datblygu Cymunedol a Chraffu	
	Cyflenwi Gwasanaeth a Gofal Cwsmeriaid	
	Cyflogaeth a Hyfforddiant	
	Atodiad 1	
	Gweithredu'r Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn ym Mlaenau Gwent	20

1. CYFLWYNIAD

Dyma'r ail Adroddiad Blynyddol i hysbysu'r Cyngor, ei bartneriaid a chyhoedd Blaenau Gwent am y cynnydd gyda datblygu a gweithredu Cynllun Cydraddoldeb Anabledd y Cyngor. Cafodd y cynllun, gyda chynllun gweithredu i gyd-fynd ag ef, eu rhoi ar waith fel dogfen fyw o fis Rhagfyr 2006.

2. YMRWYMIAD I GYDRADDOLDEB ANABLEDD A CHEFNDIR Y CYNLLUN

Hyrwyddo cydraddoldeb cyfle yw nod drosfwaol y Ddyletswydd Cydraddoldeb Anabledd. I gyflawni hyn, mae dyletswyddau penodol ar awdurdodau cyhoeddus yn Lloegr a Chymru yn sicrhau y rhoddir ystyriaeth ddyladwy i anghenion pobl anabl wrth gynllunio, cyflenwi neu fonitro'r swyddogaethau a'r gwasanaethau a ddarparant. Mae'r ddyletswydd gyffredinol yn golygu fod angen i awdurdodau cyhoeddus gymryd ymagwedd ragweithiol, gan roi cydraddoldeb anabledd ym mhrif ffrwd pob penderfyniad ac wrth gyflenwi gwasanaethau.

Mae'r Cynllun a'i Gynllun Gweithredu cysylltiedig yn arddangos ymrwymiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, drwy ei rolau a chyfrifoldebau wrth gyflenwi gwasanaethau i bobl leol, i edrych am ddulliau o sicrhau fod pobl anabl ym Mlaenau Gwent yn cael cyfle cyfartal. Mae'r ymrwymiad hwn yn sylfaenol i'r ffordd y bydd y Cyngor yn cynllunio, comisiynu a chyflenwi gwasanaethau yn lleol. Bydd y Cyngor yn parhau i ymateb mewn modd cadarnhaol drwy weithio gyda a chynnwys pobl leol a'n staff i sicrhau fod ein hymagwedd yn briodol ac effeithlon fel cyflenwr gwasanaeth a hefyd fel y cyflogydd mwyaf ym Mlaenau Gwent.

Felly, mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y cynllun gweithredu er mwyn arddangos y dulliau y mae'r Cyngor wedi ymateb i'w Gynllun a'r Ddyletswydd Gyffredinol. Mae'r Ddyletswydd hon yn nodi hyrwyddo cyfle cyfartal, dileu gwahaniaethu anghyfreithlon, dileu harasiaeth, hyrwyddo agweddau cadarnhaol, annog cyfranogiad mewn bywyd cyhoeddus a rhoi ystyriaeth i anableddau pobl anabl, hyd yn oed lle mae hynny'n golygu trin pobl anabl yn fwy ffafriol na phobl eraill. Y dulliau hyn yw:

- Arweinyddiaeth ac Ymrwymiad Corfforaethol;
- Ymgynghori, Datblygu Cymunedol a Chraffu;
- Cyflenwi Gwasanaeth a Gofal Cwsmeriaid; a
- Cyflogaeth a Hyfforddiant

3. CRYNODEB O'R PRIF GYNNYDD YN 2007/2008

Arweinyddiaeth ac Ymrwymiad Corfforaethol

- Mae'r Cyngor yn ystyried fod cydraddoldeb yn flaenoriaeth yn ei holl waith. Y Prif Weithredwr, gyda chefnogaeth Tîm Rheolaeth Gorfforaethol y Cyngor, sy'n gyfrifol am y Cynllun Cydraddoldeb Anabledd. Ar sail feunyddiol, goruchwylir gweithredu'r Cynllun gan Bennaeth Adnoddau Dynol a'r Swyddog Cydraddoldeb, ac yn wleidyddol caiff y Cynllun ei arwain gan Arweinydd ac Aelod Gweithredol Llywodraethu'r Cyngor.

- Mae'r Cyngor yn y broses o ailstrwythuro fframwaith Cydraddoldeb y Cyngor. Enwyd y Prif Weithredwr, Mr Robin Morrison, fel Pleidiwr Cydraddoldeb y Cyngor, a bydd ef yn cadeirio'r Bwrdd Cydraddoldeb Corfforaethol. Cynigir y bydd Rhwydweithiau ar gyfer pob llinyn cydraddoldeb, a bydd Uwch Swyddogion yn cadeirio a mynychu'r rhain. Bydd y Rhwydweithiau hyn yn adrodd i'r Bwrdd Cydraddoldeb Corfforaethol, a'i gylch gorchwyl fydd rhoi cyfeiriad strategol i'r Cyngor yn nhermau rhoi cydraddoldeb yn y brif ffrwd ym mhob rhan o waith y Cyngor.

- Enwebwyd Cynghorydd Don Wilcox fel Pleidiwr Cydraddoldeb yr Aelodau.

- Mae Cynghorydd Jennifer Morgan, ynghyd â Chynghorydd Hayden Trollope, ill dau yn aelodau gweithredol o'r Fforwm Mynediad i Bawb.

- Mae'r Cyngor wedi rhoi arian o'r neilltu, sydd wedi ei ddiogelu i gefnogi'r Fforwm Mynediad i Bawb a'r egwyddor o gyfranogiad.

- Mae'r Cyngor wedi cael achrediad statws Defnyddiwr Symbol Dau Dic Anabledd, sy'n cydnabod ymrwymiad y Cyngor i arfer da wrth gyflogi pobl anabl. Ar ôl asesiad ym mis Gorffennaf 2008, mae'r Cyngor yn dal yn cydymffurfio â saith ymrwymiad y cynllun.

- Mae'r Cyngor wedi dynodi ei holl swyddogaethau, polisïau a gweithdrefnau, ac wedi datblygu pecyn cymorth i baratoi ar gyfer y broses Asesu Effaith Cydraddoldeb (EQIA). Cafodd 130 o staff uwch eu hyfforddi mewn Ymwybyddiaeth Cydraddoldeb ac Asesu Effaith Cydraddoldeb. Mae'r Adran Tai wedi cynnal yn ddiweddar Asesiad Effaith Cydraddoldeb cyntaf y Cyngor ar ei Pholisi Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, sy'n gysylltiedig â'i Strategaeth Tai. Dynodwyd materion ar draws pob un o'r saith llinyn cydraddoldeb.

- Mae Strategaeth Caffaeliad Gorfforaethol y Cyngor yn sicrhau fod yr holl gontractau newydd, cytundebau lefel gwasanaeth a dogfennau comisiynu yn arddangos ymrwymiad i'r Ddeddf a hefyd cydymffurfiad gyda dyletswyddau'r Ddeddf.

- Dechreuodd prentis dehonglydd o Brosiect Dyfodol BSL (Iaith Arwyddion Prydeinig), a ariannir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd, leoliad gyda'r Cyngor a'r Bwrdd Iechyd Lleol yn gynnar ym mis Tachwedd 2007. Roedd y prentis, mewn cysylltiad â'r Gweithiwr Cymdeithasol gyda Phobl Fyddar, yn ganolog wrth gryfhau ymhellach y cysylltau a wnaed eisoes gyda'r Gymuned Fyddar ym Mlaenau Gwent, ac fe gododd hefyd ymwybyddiaeth staff o faterion sy'n wynebu'r gymuned Fyddar. Sut bynnag, o'r herwydd dylanwad y prentis dehonglydd, rydym yn bellach yn cael cyfranogiad sylweddol gyda'r gymuned Fyddar ym mhob rhan o'r Cyngor, sydd wedi ei gynorthwyo drwy gyflogi dehonglyddion BSL. Gorffennodd y lleoliad ym mis Mehefin 2008.

- Mewn partneriaeth gyda'r Bwrdd Iechyd Lleol ac Ymddiried Partneriaethau Glyn Ebwy, mae'r Cyngor yn dymuno cefnogi Clwb Byddar Glyn Ebwy i symud o'u lleoliad presennol oherwydd problemau a gânt wrth ddefnyddio'r cyfleuster.

- Mae'r Cyngor wedi clywed yn ddiweddar fod ei gynnig i redeg prosiect peilot mewn cysylltiad â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) yn llwyddiannus. Mae'r peilot yn ymwneud ag archwilio'r posibilrwydd o ddatblygu Pecyn Cymorth Hunanasesiad ar gyfer y Fframwaith Gwella Cydraddoldeb i Lywodraeth Leol Cymru (FfGC). Dylunnir y FfGC i roi saith llinyn Cydraddoldeb yn y brif ffrwd ym mhob Cyngor drwy ddefnyddio proses Reoli Perfformiad.

Ymgynghori, Datblygu Cymunedol a Chraffu

- Ffurfiwyd Fforwm Mynediad i Bawb ym mis Gorffennaf 2007 ac mae swyddogion anabl a heb fod yn anabl o'r Cyngor, aelodau o'r cyhoedd, gofalwyr, cynrychiolwyr grwpiau lleol ac Aelodau Etholedig yn ei fynychu. Ef yw'r grŵp rheoli ar gyfer cydraddoldeb anabledd yn y Fwrdeistref Sirol gyda swyddogion yn gyfrifol am raeadru gwybodaeth a chamau gweithredu yn deillio o'r Fforwm drwy eu meysydd gwasanaeth. Mae'r Cyngor wedi rhoi arian o'r neilltu, sydd wedi ei ddiogelu i gefnogi'r Fforwm Mynediad i Bawb a'r egwyddor o gyfranogiad.

- Mae gan y Fforwm aelodaeth amrywiol sy'n annog datblygu gweithio partneriaeth. Aelodau'r grŵp hyd yma yw:

  1. Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
  2. Staff anabl ac aelodau o'r cyhoedd
  3. Bwrdd Iechyd Lleol Blaenau Gwent
  4. GAVO
  5. Croesffyrdd
  6. Clwb Coes Blaenau Gwent
  7. Cyngor Anabl Blaenau Gwent
  8. Clwb Byddar Blaenau Gwent
  9. Anabledd Cymru

- Mae'r Fforwm yn cwrdd bob 6 wythnos ac yn ymgymryd â rôl monitro, adolygu a diwygio'r Cynllun a'i Gynllun Gweithredu lle bo'n addas, a rhoddir adroddiad rheolaidd ar hyn i Dîm Rheolaeth Gorfforaethol y Cyngor.

- Mae'r Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth agos gyda Bwrdd Iechyd Lleol Blaenau Gwent wrth redeg y Fforwm sy'n bodoli i roi llais i bobl gydag Anabledd ym Mlaenau Gwent.

- Mae is-grŵp digwyddiadau yn cwrdd bob deufis i drafod pynciau a threfniadau ar gyfer pedwar digwyddiad thema i'w cynnal ar draws y Fwrdeistref Sirol gyda'r nod o ymgysylltu a chynnwys pobl anabl o'r cyhoedd a'r staff.

- Trwy'r Fforwm Mynediad i Bawb, datblygwyd Fforwm Byddar a fydd yn cwrdd yn chwarterol ac sydd wedi'i gynllunio i roi llais i Gymuned Fyddar Blaenau Gwent drwy gyfrannu at ffurfio cyflenwi gwasanaeth a mynediad i wasanaethau. Cwrddodd y Fforwm cyntaf ar y 19eg Medi 2008 ac roedd yn llwyddiant mawr, gyda thua 70 o bobl yn mynychu a 50 o'r rhain yn fyddar.

- Dechreuwyd ail-fodelu derbynfa Canolfan Ddinesig Glyn Ebwy ar 24ain Tachwedd 2008. Cyflwynwyd y prosiect hwn i Fforwm y Cyngor, Mynediad i Bawb, a awgrymodd nifer o newidiadau pwysig a wnelo â mynediad i'w hychwanegu at y cynllun – enghraifft dda iawn o gyfranogiad.

- Mae'r Cyngor yn rhedeg Fforwm Chwaraeon Anabledd ar gyfer pobl sy'n cymryd rhan mewn Chwaraeon Anabledd (hyfforddwyr, gwirfoddolwyr, pobl sy'n rhedeg clybiau, cyfranogwyr a rhieni). Mae'r Fforwm yn galluogi aelodau i gwrdd a rhannu syniadau, trafod anghenion hyfforddiant, cyllid neu unrhyw fater arall a all fod yn eu hwynebu. Cafodd y cynllun hwn ei sefydlu gan y Swyddog Cynhwysiad Chwaraeon Gwasanaethau Hamdden.

- Cynhaliodd defnyddwyr gwasanaeth Gwasanaethau Cymdeithasol, Gofalwyr, gweithwyr proffesiynol ac asiantaethau gwirfoddol ddigwyddiad 'Cael Eich Dweud' yn 2008 am y gwasanaethau a ddarparwyd i unigolion gydag Anableddau Dysgu, eu teuluoedd a'u gofalwyr anffurfiol, gan yr Awdurdod Lleol a Bwrdd Iechyd Lleol, ynghyd â gwasanaethau cyffredinol a chyfleusterau eraill a ddarparwyd ym Mlaenau Gwent. Atynnodd y digwyddiad dros 80 cyfranogwr o ar draws Blaenau Gwent, a'i creodd

gyfle i rannu profiadau a gwybodaeth am ddarpariaeth gwasanaeth bresennol yn agored a gyda gonestrwydd mewn amgylchedd diogel a chalonogol. Daw hwn yn ddigwyddiad blynyddol.

- Bydd y wybodaeth a gasglwyd o 'Cael Eich Dweud' yn cynorthwyo Gwasanaethau Cymdeithasol Blaenau Gwent a'r Bwrdd Iechyd Lleol i ddatblygu strategaeth comisiynu ar y cyd i gynllunio am wasanaethau dyfodol ar gyfer pobl gydag Anabledd Dysgu, a'u teuluoedd a gofalwyr. (Gellir cael manylion llawn am ddigwyddiadau o'r Gwasanaethau Cymdeithasol).

- Ynghlwm fel Atodiad 1 yw crynodeb o weithredu'r Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn ym Mlaenau Gwent.

Cyflenwi Gwasanaeth a Gofal Cwsmeriaid

<u>Mae Gwasanaethau Plant wedi:</u>

- Datblygu cynllun hamdden cymorthedig ac maent ar fin agor cynllun gofalwr cadw (gyda Barnados). Rhoddwyd Gwobr Rhagoriaeth Cymru am y gwaith hwn.
- Cefnogi ail-lansio grŵp cefnogi ar gyfer rhieni.
- Paratoi achos Busnes yn cefnogi prosiect blynyddoedd cynnar.
- Sefydlu protocolau a phanel i bontio rhwng gwasanaethau oedolion.
- Mewn cysylltiad â Thai, addasu cartrefi ac adeiladu cartrefi newydd ar gyfer tua 20 plentyn gydag anableddau. Roedd hyn yn cefnogi teuluoedd i dal ymlaen â gofalu am eu plant.
- Rhoi Strategaeth Defnyddwyr a Gofalwyr ar waith yng Ngwasanaethau Cymdeithasol a chynnal Arolwg Defnyddwyr a Gofalwyr ym mis Mawrth 2008.
- Rhoi cynllun chwarae cyfannol ar waith gyda Barnardos a Hamdden.
- Rhoi Cynllun Mentro Allan ar waith.

Gwasanaethau Synhwyraidd Gwell ar gyfer y Byddar

- Yn 2008, ysgrifennodd Tîm Synhwyraidd Gwasanaethau Cymdeithasol drefn i'w dilyn wrth gyflogi Dehonglydd BSL/Saesneg sydd ar gael i staff y Cyngor.
- Y Tîm Synhwyraidd Gwasanaethau Cymdeithasol yw'r Awdurdod Lleol Cyntaf yng Nghymru i brynu Ffôn Fideo i alluogi cysylltiad â'r gymuned Fyddar.
- Mae'r Fforwm Mynediad i Bawb yn mynd i dalu am Ffôn Fideo ar gyfer Derbynfa Gwasanaethau Cwsmeriaid newydd yn y Ganolfan Ddinesig yng Nglyn Ebwy.
- Bu'r Gwasanaeth Addysg yn rhagweithiol wrth gynnwys disgyblion anabl, rhieni, gofalwyr, therapyddion galwedigaethol, ac arbenigwyr mewn nam ar y Golwg mewn gwahanol addasiadau i ysgolion yn y Fwrdeistref Sirol.
- Mae Tîm Synhwyraidd Gwasanaethau Cymdeithasol wedi gweithio mewn partneriaeth gyda Sense Cymru i ddatblygu a chynnal cofrestr ddibynadwy ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth Byddar/Dall ym Mlaenau Gwent.
- Darperir bellach gwasanaethau cynnal ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth Byddar/Dall ar ôl proses gomisiynu a chytundebu effeithlon gydag asiantaethau partner arbenigol.
- Mae cyfranogiad Meincnodi ar Nam ar y Golwg wedi dod yn offeryn defnyddiol wrth ddatblygu gwasanaethau. Mae wedi mapio dealltwriaeth o le y datblygir gwasanaethau a chanllawiau arfer gorau ar gael. Lle y'i defnyddiwyd yn llawn, mae wedi cynorthwyo gwelliant mewn gwasanaeth. Fe'i cydnabuwyd fel gwaith ardderchog gan WAG, ADSS, SSIA, AGGCC ac ar draws sectorau gwirfoddol.
- Cynrychiolaeth Nam ar y Golwg yng Ngrŵp Gwybodaeth Gyhoeddus – hysbysodd fformatau priodol ar gyfer darpariaeth gwybodaeth h.y. print bras, Braille, cysylltau clywedol a thechnoleg gwybodaeth.
- Diweddarwyd a dosbarthwyd llyfryn Gwasanaethau ar gyfer Pobl gyda Nam ar eu Golwg.
- Cyfieithir llyfryn Gwasanaethau ar gyfer Plant gyda Nam ar eu Golwg ar hyn o bryd a bydd yn barod i brintio a dosbarthu cyn bo hir.
- Mae'r Cyngor yn darparu cefnogaeth dysgu i fyfyrwyr Byddar. Cytunwyd ar brotocol y caiff cynorthwywyr Cefnogaeth Dehonglydd BSL eu lleoli, eu rhoi ar waith, ac y

gwneir cais am gyllid wedyn yn hytrach na'r ffordd arall o amgylch i sicrhau nad yw'r defnyddwyr gwasanaeth dan anfantais oherwydd oedi mewn lleoliad yn y man Dysgu.

- Mae'r Fforwm Mynediad i Bawb yn dymuno darparu gwybodaeth prif lif drwy gyfrwng Iaith Arwyddion Prydeinig (BSL). Mae swyddogion y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd Lleol wedi ymweld â Thîm Synhwyraidd Cyngor Dinas Bryste, a enwyd fel enghraifft o arfer da yn y maes hwn.
- Mae'r Fforwm wedi mynd at olygydd ffilmiau lleol i ffilmio DVD am wasanaeth cwynion y Cyngor a DVD cynhwysfawr "Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol ar gyfer Oedolion" yn BSL.
- Trwy'r Fforwm Mynediad i Bawb, cafodd y Cyngor ei anrhydeddu'n ddiweddar gan gael ei bleidleisio fel y Gorau yng Nghymru a phump gorau yn y DU am fod yn Gyfeillgar i'r Byddar. Daeth yr anrhydedd hon o ganlyniad pleidlais wedi ei gynnal gan Wasanaeth Typetalk RNID.
- Mae'r Cyngor wedi cynhyrchu Strategaeth Sgiliau Ieithyddol a fydd yn cofnodi faint o staff sydd gennym gyda Sgiliau Iaith Arwyddion Prydeinig ac os ydynt yn fodlon eu defnyddio er budd y Cyngor a defnyddwyr Gwasanaeth Byddar.
- Bu'r Cyngor, mewn cysylltiad â nifer o bartneriaid lleol eraill, yn llwyddiannus wrth sicrhau cyllid drwy Gronfa Gwella Creu'r Cysylltiadau ar gyfer Gwasanaeth Dehongli a Chyfieithu. Rhagwelir y bydd prif fanteision gwasanaeth o'r fath yn cynnwys darparu data cywir am anghenion ieithyddol o fewn Cymru (defnydd BSL yn nhermau'r adroddiad hwn) ac osgoi dyblygu gwaith gan bob corff unigol yng Nghymru. Mae'r cynnig wedi dod i'r fan lle y casglir gwybodaeth drwy Gymru i gyd am wasanaethau y bydd angen i'r sefydliad newydd ddarparu.

Gwasanaethau Gwell ar gyfer Pobl â Nam ar eu Golwg

- Gweithio partneriaeth gyda Llyfrgelloedd Blaenau Gwent a thîm Nam ar y Golwg Gwasanaethau Cymdeithasol, sy'n cynnig cynllun ymweliad Cartref, Llyfrau Llafar naill ai drwy adnoddau lleol, RNIB, Llyfrgell Calibre. Asiantwyr 'British Wireless for the Blind'. Wrthi drefnu grwpiau Darllen.
- Mae Gwasanaeth Addysg Gymunedol yn cynnig cyrsiau Technoleg Gwybodaeth i bobl 16 oed a drosodd. Mae pob

cwrs o allu cymysg, felly mae croeso i ddefnyddwyr cyfrifiadur newydd a phrofiadol ymuno. Trefnwyd sesiynau blasu ym mis Gorffennaf eleni, lle cyrchodd pobl â nam ar eu Golwg asesiadau unigol gyda golwg ar ymuno â chyrsiau trefnedig. Profodd hyn yn llwyddiannus iawn. Gellir addasu'r cyfrifiaduron ym mhob canolfan i weddi anghenion pob unigolyn. Gellir addasu lliw a maint gwrthrychau ar y sgrin. Maent hefyd yn cynnig bysellfyrddau o wahanol fath.

- Mae Amgueddfa ac Orielau Cenedlaethol Cymru "Mynd yn Ymarferol yn yr Amgueddfa Genedlaethol". Mae pobl â nam ar eu golwg wedi cymryd rhan mewn gweithdai cyffyrddol. Trefnir nifer o ddigwyddiadau am y flwyddyn nesaf, gan gychwyn ym mis Ebrill.
- Darparodd Gweithiwr Cymdeithasol ar gyfer Pobl â Nam ar eu Golwg wybodaeth ym mis Hydref 2008 i gefnogi ailwampio'r Oriel o safbwynt Synhwyraidd.
- Mae'r Tîm Cyfathrebu Corfforaethol wedi darparu fersiynau print a hefyd Word o Bapur Newydd y Cyngor, *Llais y Cymoedd* , i alluogi aelodau dall o'r staff i gyrchu dogfennau gyda meddalwedd lleferydd cyfrifiadur Jaws.
- Mae'r Undeb (Unsain) wedi gwneud yr un modd ar gyfer ei aelodau dall/nam ar eu golwg gyda Chylchlythyr Cysgod.

<u>Gwelliannau i Adeiladau o dan y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd</u>

- **Gwasanaethau Hamdden**. Enillodd Theatr Metropole yn Abertyleri Gwobr Gymreig Sefydliad Brenhinol Syrfewyr Siartredig (Categori: Budd Cymunedol).
- Derbyniodd Theatr Metropole hefyd 'Gymeradwyaeth' yng Ngwobr Adeilad y Flwyddyn Consortiwm Awdurdodau Lleol yng Nghymru (CLAW).

- **Datblygiad/gwelliant yr Adran Hamdden i fynediad o fewn Canolfan Chwaraeon ym Mlaenau Gwent:**
- Ailwampio sylweddol i ystafelloedd newid pwll nofio yng Nghanolfan Chwaraeon Tredegar.
- Mae grisiau hawdd i'w defnyddio i fynd i mewn i byllau nofio ym mhob Canolfan Chwaraeon.
- Gwersi nofio ar gyfer pobl gydag Anabledd yng Nghanolfan Chwaraeon Abertyleri.

- Sesiwn Datblygu Chwaraeon Anabledd yng Nghanolfan Chwaraeon Nant-y-glo.
- Sesiwn pêl droed ar gyfer pobl gydag anableddau yng Nghanolfan Chwaraeon Abertyleri.
- Defnydd cynyddol o Ganolfan Chwaraeon Abertyleri gan Gleientiaid Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Rhaglen cynllun chwarae haf cyfannol ym mhob un o'r 4 Canolfan Chwaraeon.
- Ymestyn y "Cerdyn Bywyd" ar gyfer pobl ifanc o fewn Arena Canolfan Gweithredu Dysgu.

- Gwelir isod hefyd ambell brosiect a gyflawnwyd yn 2008 gan dîm **Gwasanaethau Technegol** ag sydd werth tynnu sylw atynt:

    - Parcffordd Glyn Ebwy – mynediad i'r Orsaf Reilffordd
    - Gorsafoedd Pleidleisio – Rampiau Mynediad
    - Monwel Hankinson – Ramp Ôl-fynedfa
    - Toiled i'r anabl yn Ysgol Gyfun Glyn Ebwy
    - Toiled i'r anabl yn Llyfrgell Bryn-mawr
    - Ramp newydd/toiled i'r anabl yng Nghanolfan Ieuenctid Abertyleri

- **Ysgol Gyfun Abertyleri** Llawr gwrthiannol llithro mewn ardaloedd penodol o'r ysgol (anghenion arbennig).
- Drysau llithro awtomatig newydd i'r brif fynedfa /derbynfa.
- Drysau tân sy'n cau'n awtomatig (sy'n galluogi teithio drwy'r ysgol ar gadair olwyn).
- Ailwampio'n llawn toiled i'r anabl a phobl ag anghenion arbennig.

- **Ysgol Georgetown**. Addasiadau toiled i'r anabl.
- Addasiadau ffrâm drws i alluogi mynediad cadair olwyn i ystafell ddosbarth blynyddoedd cynnar.

- **Stryd y Frenhines**. Darparu diogelwyr pen grisiau ar gyfer mynediad haws.

- **Ysgol Gymraeg Bryn-mawr.** Darparu ramp i alluogi mynediad i'r brif fynedfa/derbynfa.

- **Canolfan Thomas Richards.** Darparu llawr gwrthiannol llithro.

Mae'r Cyngor yn ymroddedig i ddarparu, lle'n briodol a rhesymol, gymhorthion i alluogi pobl anabl i wneud eu cwynion, yn cynnwys defnyddio gwasanaethau eiriolaeth addas a defnydd dewis o fformatau.

Cysylltu â Blaenau Gwent (C2BG)

- Cynhaliodd C2BG sesiynau gweithdy nid yn unig i'r Adolygiad gan Gydweithwyr Awdurdodau o Egwyddorion Gwasanaeth Cwsmeriaid wrth eu Hymarfer (CSP2P), ond hefyd ar ddiwrnodau agored i greu dealltwriaeth well ymysg cwsmeriaid am wasanaethau a ddarperir a'r sianeli cyrchu sydd ar gael. Mae C2BG yn anelu at hyrwyddo cyrchiad cyfartal i wasanaethau Cyngor, felly bydd gwaith a ymgymerir dros y flwyddyn nesaf yn edrych ar sianeli cyrchu pellach sydd ar gael (teledu digidol, SMS, ffônau fideo ac yn y blaen) er mwyn galluogi pob cleient a chwsmer i gael o hyd cyrchiad hawdd i wasanaethau'r Cyngor. Bydd hyn yn cynnwys ailddatblygu'r Wefan i ddarparu rhagor o brosesau trafodaethol.

- Mae C2BG wedi gosod minicom ac mae ganddynt wefan lle medrir gweithredu gwasanaethau ar-lein. Byddant hefyd yn trefnu cyfarfodydd wyneb-i-wyneb gyda dehonglydd BSL ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth byddar pan wneir cais.

Cyflogaeth a Hyfforddiant

- Mae'r Cyngor yn parhau i sicrhau fod pob aelod o staff sy'n ymdrin â chwynion yn gwybod am wahanol anghenion pobl gydag anableddau fel y medrir gwneud addasiadau rhesymol i sicrhau y caiff anghenion unigolion eu diwallu. Hyfforddwyd yr holl staff Gwasanaethau Cymdeithasol yng nghyswllt y broses gwynion.

- Dangosir y Symbol Anabledd Dau Dic ar bob hysbyseb swydd, ffurflen gais a deunydd papur corfforaethol i arddangos ymrwymiad y Cyngor i gyflogi pobl anabl.

- Mae Workstep, sy'n gweithredu yn Monwel Signs yng Nglyn Ebwy, yn cyflogi 35 staff a darparu cymorth, cyngor ac arweiniad i gyflogwyr a gweithwyr ill dau ynghylch anabledd. Mae'n gynllun a ariannir gan y Llywodraeth ac a gynlluniwyd i roi cyfle i bobl anabl i ennill neu gadw cyflogaeth.

- Mae'r Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth gyda Job Match, Canolfan Byd Gwaith, Budd-dal i Waith, Prosiect Paratoi Gwaith, Remploy ac Ymddiriedolaeth Shaw. Mae gwaith yn parhau i ddwyn yr holl asiantaethau hyn at ei gilydd ac i ddatblygu protocol anffurfiol ar gyfer cyfeirio pobl anabl a fydd yn uchafu cyfleoedd hyfforddi ac ariannu.

- Mae Hyfforddiant Cydraddoldeb Generig yn parhau i gynnwys Anabledd fel rhan o broses anwytho'r Cyngor ar gyfer staff newydd.

- Mae'r Cyngor yn datblygu dosbarthiadau BSL Lefel 1 a Lefel 2 ar gyfer aelodau'r Cyngor a Bwrdd Iechyd Lleol a chyrsiau blasu ar gyfer y rhai a hoffai ddysgu arwyddo.

Llwybr Cyflogi: Mynediad i Bawb

- Cafodd Swyddog Datblygu Llwybrau Cyflogi ar gyfer Jobmatch ei ofyn gan Fforwm Mynediad i Bawb i gynllunio prosiect y byddai'n cynorthwyo'n benodol pobl anabl gofrestredig i gael cyflogaeth. Trwy'r Fforwm cyflwynwyd y swyddog i dair menyw a oedd yn fyddar, di-waith ac am gael ymgyrchoedd o fewn y Sector Addysg/Gofal. Cychwynnwyd y syniad i gynllunio rhaglen beilot Llwybrau Cyflogi yma ac fe'i harchwiliwyd ymhellach.

- Roedd Prifathro Ysgol Anghenion Arbennig Pen-y-cwm yn hynod awyddus i fynd ynghlwm a llywyddu'r prosiect. Bydd yr hyfforddeion yn gweithio tuag at Dystysgrif Lefel 2 CACHE ar gyfer Cynorthwywyr Dysgu ar eu lleoliad gwaith, a fydd yn eu gosod mewn sefyllfa dda i ymgeisio am unrhyw swydd

wag efallai y bydd yn codi. Mae gweledigaeth yr Ysgol o ddarparu 'mynediad a chyfle cyfartal i bawb ym Mhen-y-cwm, lle y caiff staff cyfleoedd aml am ddatblygu proffesiynol parhaus' yn holl bwysig, ac mae'r Prifathro'n credu y bydd y rhaglen yn manteisio staff a disgyblion yn yr ysgol fel ei gilydd. Dechreuodd y rhaglen ym mis Ionawr 2009.

Digwyddiadau/Sesiynau Ymwybyddiaeth

- Rhedodd y Gweithiwr Cymdeithasol ar gyfer Pobl â Nam ar eu Clyw seminar amser cinio am faterion Byddar.

- Rhedodd Gwasanaethau Cymdeithasol gwrs BSL drwy Uned Hyfforddi Gwasanaethau Cymdeithasol yn ddiweddar.

- Rhedodd Fforwm Mynediad i Bawb Ddigwyddiad Adrodd Storïau ym mis Medi 2008 yn Nawnsfa Beaufort. Mynychwyd y digwyddiad gan dros 100 o bobl ag oedd yn ymwneud â phobl anabl dweud eu hanesion ynghyd â'r problemau ag anwybodaeth y maent wedi cyfarfod. Bu'r digwyddiad hwn mor llwyddiannus y mae trefniadau eraill wedi gofyn i ddefnyddio'r fformat i redeg eu digwyddiadau eu hun. Penderfynwyd rhedeg y digwyddiad hwn yn y flwyddyn newydd ar gyfer pob swyddog uwch ac Aelod Etholedig y Cyngor.

- Trefnwyd digwyddiad Arddangosfa Gwybodaeth Fyddar – Arwydd yr Amseroedd – gan Dîm Synhwyraidd Gwasanaethau Cymdeithasol gyda chyllid o Fforwm Mynediad i Bawb ac fe'i cynhaliwyd yng Nghanolfan Gynhadledd a Diwylliant y Metropole yn Abertyleri ar y 16eg Ebrill 2008. Fe'i mynychwyd gan dros 200 o bobl, ag oedd yn ymwneud ag arddangosfeydd, cyflwyniadau a gweithdai, ac fe'i hystyriwyd fel llwyddiant anferth.

- Mae'r Adran Amgylchedd yn cynnal dau ddigwyddiad mawr yn Nepo Monusk ym Mryn-mawr (Mehefin a Hydref) bob flwyddyn, lle y gwahoddir llawer o drefniadau i'w fynychu, o ba rai y mynychodd y canlynol eleni:

    - Osteoporosis

- Help the Aged
- Rhaglen Gleifion Arbenigol
- Gofal a Thrwsio
- Hawl Plant
- Tylinwr Corff
- Ymwybyddiaeth strôc.

- Cynhelir diwrnodau ymwybyddiaeth bob mis. Yn y gorffennol y mae'r rhain wedi cynnwys Diabetes, Calon Iach, Canser y Fron, Canser y Brostad, Ymwybyddiaeth Straen.

- Mae'r Swyddog Chwaraeon Anabledd wedi trefnu ambell ddigwyddiad hyfforddi ar gyfer staff a hyfforddwyr am ymwybyddiaeth anabledd ac addasu gweithgareddau ar gyfer pobl gydag anableddau.

- Mae'r Swyddog Chwaraeon Anabledd wedi trefnu'r canlynol dros y flwyddyn ddiwethaf:

  - Clwb Athletau ar gyfer plant 8-18 oed gydag anabledd;
  - Gwersi nofion ar gyfer pobl gydag anableddau
  - Digwyddiad Hawl Agored i Weld yng Nglyn Ebwy i arddangos Chwaraeon Paralympaidd

Prosiectau

Prosiect Cymunedau 'Switched on' – Prosiect Asesu o Bell Cymru

- Cyflawnir dau brosiect technoleg hygyrch ar draws Cymru gan yr elusen anabledd a thechnoleg gwybodaeth AbilityNet. Sefydlwyd AbilityNet yn 1998 ar ôl cyfuniad y Computability Centre a'r Sefydliad Cyfathrebu ar gyfer Rhai Anabl ac fe'i hystyrir gan lawer fel yr awdurdod blaenaf yn y DU ar bobl anabl defnyddio Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh).

- Sefydlodd **Gwasanaethau Cymdeithasol** brosiect gyda RNID ym mis Hydref 2008 (Blaenau Gwent yw'r unig Awdurdod Lleol yn Ne Cymru a ddewiswyd i redeg y prosiect hwn). Dyma brosiect partneriaeth gyda RNID, y Bwrdd

Iechyd Lleol a Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent – sefydlu prosiect gwirfoddoli gyda phobl Fyddar leol.

- Mae **Cymunedau 'Switched On' (SOC)** yn rhaglen fuddsoddiad cymunedol a ariannir gan DSG International Foundation (yn fwyaf adnabyddus am ei frandiau stryd fawr PC World a Currys Digital) a'i cyflawnir gan AbilityNet mewn cysylltiad â RISE. (Rhwydwaith Dysgu 5 sir yw RISE sydd wedi'i leoli yn yr ardal Gwent Fawr). Fe'i hariannwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru fel rhan o fesurau adfywiad yr ardal ar ôl i'r gwaith dur yng Nglyn Ebwy gau. Lleolir RISE mewn nifer o Ganolfannau Gweithredu Dysgu a chanolfannau dibynnol ar draws Blaenau Gwent. I ganolfannau sector gwirfoddol cyfrannol y mae'n darparu pecyn hygyrchedd (dewis bysellfwrdd a llygoden, meddalwedd i ddarparu cymorth llythrennedd a chryno ddisgiau ategol a thaflenni sgiliau), hyfforddiant mewn addasu cyfrifiaduron i gwrdd ag anghenion defnyddwyr anabl a chymorth i adnabod anghenion hygyrch dysgwyr. Mae AbilityNet yn gweithio gyda model cymdeithasol o anabledd ac yn cofleidio sbectrwm eang o anawsterau ac anableddau yn cynnwys golwg sy'n methu, anghenion ESOL (English for Speakers of Other Languages), dyslecsia, arthritis, ynghyd ag anableddau cofrestredig. Roedd NCH Winchestown yn un o'r canolfannau sector gwirfoddol cyntaf yng Ngwent i gael ei recriwtio am y prosiect hwn.

- Mae **Prosiect Asesu o Bell Cymru (WRAP)**, a ariannir gan y Loteri Fawr, yn draws-sector ac wrthi ganfod 90 Canolfan Gyrchu i'r Cyhoedd yn y gymuned (addysg gymunedol, llyfrgelloedd, unedau symudol, ac yn y blaen) ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru sy'n darparu ar gyfer pobl anabl. Trwy ddefnydd arloesol o dechnoleg wybodaeth a gwasanaethau'r Rhyngrwyd, mae'r prosiect yn darparu hunanasesiadau ac asesiadau wedi eu cynnal ar gyfer pobl anabl a'u hanghenion technoleg gwybodaeth, gan leihau, drwy dechnoleg, amser aros cyfartalog ar gyfer pobl anabl i gael eu hasesu. Mae pob canolfan gyfrannol yn derbyn pecyn hygyrchedd o galedwedd a meddalwedd a hyfforddiant i'w ddefnyddio. Mae tair canolfan ym Mlaenau Gwent yn cyfrannu yn y prosiect hwn: Canolfan Ddysgu

Agored a Llyfrgell Abertyleri, Canolfan Gweithredu Dysgu Stryd James yng Nglyn Ebwy, a Catapult yn Nhredegar.

4. MEYSYDD ALLWEDDOL AR GYFER GWEITHREDU YN 2009

- Mae'r Cyngor wedi cyflawni swm sylweddol o waith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn y maes Anabledd, fel y tystir yn yr adroddiad hwn. Yr elfen galonogol yw bod hyn wedi digwydd ar draws bob ardal wasanaeth, ac yn cynnwys amrywiaeth hynod o waith a mentrau. Cydnabyddir fodd bynnag na allwn fod yn hunanfodlon a bod meysydd o hyd yng nghynllun gweithredu'r Cynllun Anabledd sydd angen sylw a bod angen ffocws parhaus ar faterion cydraddoldeb anabledd. Y meysydd sydd angen sylw pellach o fewn y cynllun gweithredu ar gyfer 2009 yw fel a ganlyn:-

Arweinyddiaeth ac Ymrwymiad Corfforaethol

- "Bwydo i'r Strategaeth Cyfathrebu Gorfforaethol yr Awdurdod i sicrhau y gall pobl anabl gyrchu gwybodaeth y Cyngor mewn fformatau hygyrch." Mae mwy Adrannau sydd yn ymwybodol o'r angen i ddarparu gwybodaeth mewn fformatau amgen ac maent yn eu darparu hwy pan wneir cais. Ysgrifennir y strategaeth hon yn y flwyddyn nesaf a bydd yn darparu manylion clir o anghenion hygyrchedd gwybodaeth.
- Mae angen rhagor o wybodaeth i oleuo datblygiad y cynllun gweithredu.
- "Cynnwys mesurau o Gynllun Gweithredu'r Cynllun Cydraddoldeb Anabledd yng nghynllun busnes pob ardal wasanaeth". Bydd y Cyngor yn y man yn mabwysiadu Fframwaith Gwella Cydraddoldeb i Lywodraeth Leol Cymru, a fydd drwy broses reoli perfformiad yn rhoi Cydraddoldeb yn y brif ffrwd ac felly yn disodli'r weithred hon.

Ymgynghori, Datblygu Cymunedol a Chraffu

- Pob maes gwasanaeth i adolygu polisïau a swyddogaethau presennol ar gyfer perthnasedd i ddyletswyddau penodol y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd". Rydym wedi

hyfforddi dros 130 uwch staff i gyflawni'r swyddogaeth hon. Bydd hyfforddiant yn parhau i ddigwydd. Mae Asesiadau Effaith Cydraddoldeb yn dechrau digwydd ar brif strategaethau'r Cyngor (Cynllun Sengl Plant, Strategaeth Tai, Cynllun Datblygu Lleol, Strategaeth Hygyrchedd Addysg). Rydym wedi cyflawni asesiad polisi sy'n gysylltiedig â'r Strategaeth Tai (Polisi Ymddygiad Gwrthgymdeithasol) a darganfod gweithredoedd mewn perthynas â'r saith llinyn cydraddoldeb. Bydd gwaith yn parhau i ddigwydd ar draws yr Awdurdod ynglŷn â chyflawni Asesiadau Effaith Cydraddoldeb.

- Cynyddu'r nifer o'r cyhoedd Anabl, staff, gofalwyr a threfniadau sy'n mynychu Fforwm Mynediad i Bawb er mwyn gwella cyfranogiad ymhellach ar gyfer y rhai anabl yn y Gymuned. Fel y saif y mae parch mawr at y Fforwm ac mae aelodaeth iachus iawn gyda dros 50 o bobl yn mynychu'r cyfarfod ym mis Rhagfyr. Er hynny, mae'r aelodaeth yn dibynnu yn ei sylwedd ar staff ac Aelodau Etholedig a bydd rhaid i'r Fforwm ystyried sut y gallwn gael mwy aelodau anabl o'r cyhoedd i ymuno ag ymwneud â datblygu gwasanaethau'r Cyngor.

Cyflenwi Gwasanaeth a Gofal Cwsmeriaid

- "Gwaith pellach i'w gyflawni ar wefan y Cyngor i barhau i wella hygyrchedd ar gyfer pobl anabl". Mae trafodaethau wrthi a bu'r gwelliannau angenrheidiol wedi'i nodi. Dim ond i ni aros i gyflawni'r gwelliannau (maint testun, cymwysadwy, lliw rhannau gwahanol o'r gosodiad safonol, cyferbyniad lliw ar gyfer nam ar y golwg).

Cyflogaeth a Hyfforddiant

- "Yr Awdurdod i ymrwymo i raglen strwythuredig wedi'i thargedu o hyfforddiant ymwybyddiaeth anabledd staff". Ar y pryd, mae hyfforddiant ad hoc mewn pocedi o'r Cyngor, a bydd angen ffocws ar ddatblygu rhaglen strwythuredig sy'n briodol i anghenion staff e.e. hyfforddiant ymwybyddiaeth ar gyfer staff rheng flaen ac yn y blaen.

Atodiad 1 - Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

Gweithredu'r Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn ym Mlaenau Gwent

Diweddariad Byr o Gynnydd – Hydref 2008

1 Gwerthfawrogi Pobl Hŷn: Cadw a Datblygu Cyfranogiad

- Cadwyd swydd Swyddog Cyfranogiad y Cyhoedd (ariannir drwy gyllid datblygu'r Strategaeth)
- Datblygwyd 'Gwasanaethau Pobl Hŷn' gwefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
- Digwyddiadau Cyfranogi:
  Digwyddiad Gwybodaeth Iachach, Cyfoethocach a Doethach 50+, Y Ganolfan Ddinesig, Glyn Ebwy.
  Cyngor/Gwybodaeth i weithwyr Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent (Pensiynau, Gofal Iechyd, Gwaith Gwirfoddol, Gweithgaredd Hamdden, Cynnal Gofalwyr, cyngor Hawliau Lles, Addysg, Iechyd Galwedigaethol, Cadw'n Heini ac yn Weithgar, Dysgu Cymraeg) (Ebrill 08)
  Gwasanaethau Gofal Cartref, Blaenau (Ebrill 08)
  Cael Eich Dweud – cyfarfod â Phleidiwr Pobl Hŷn ac Aelodau Etholedig Lleol, Abertyleri (Medi 08)
  Digwyddiad Gwanwyn, Theatr Metropole, Abertyleri (Ebrill 08)
  Dathliad Diwrnod Rhyngwladol y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn, Beaufort, Glyn Ebwy (1af Hydref 08)
  Arolygon Defnyddwyr/Gofalwyr (Gwasanaethau Cymdeithasol) defnyddio fformat adolygiad ar y cyd a chynhyrchiad adroddiad blynyddol/cynllun gweithredu diwygiedig – nodi meysydd gwelliant i gynorthwyo cynllunio gwasanaeth.
- Diwrnodau gwybodaeth/ymwybyddiaeth amlasiantaethol ar gyfer pobl hŷn a drefnwyd ym mhedwar lleoliad ar draws y Fwrdeistref, fe'i cyd-drefnwyd gan Heddlu Gwent (Mehefin 08)
- 'Digwyddiad Adrodd Storïau' mynediad i bawb Beaufort Glyn Ebwy (Mehefin 08)
- Rhaglen o Weithgareddau Rhyng-genedlaethau a ddarparwyd gan RSVP, oedd yn cynnwys:

- Datblygu sesiynau Treftadaeth / Hel Atgofion o fewn ysgolion lleol. Gyrrwyd llenyddiaeth y prosiect i bob ysgol gyda chyngor am fwcio sesiynau.
  O ganlyniad gwaith datblygu, mewn cysylltiad ag ysgolion, recriwtiwyd gwirfoddolwyr i gymryd eu rhan mewn Diwrnod yr Ail Ryfel Byd yn Ysgol Mileniwm Roseheyworth. (Roedd hyn yn cynnwys recriwtio dau wirfoddolwr a oedd yn mynychu'r ysgol am gyfres o weithdai dawnsio 'hen oes' gyda'r plant.)
- Mae Prosiect Rhyng-genedlaethau wedi datblygu rhaglen beilot 'coginio mewn ysgolion'. Mae Hwylusydd Gwirfoddol wedi cyflawni hyfforddiant hylendid bwyd a ariannir gan RSVP. Mae Gweithiwr Datblygu mewn cyswllt â Chymunedau'n Gyntaf mewn perthynas â phosibilrwydd estyn y prosiect / cyfranogiad ehangach o fewn y gymuned.
- Swyddog RSVP / Cyfranogiad y Cyhoedd – trefnu Digwyddiad Dawns ar gyfer Pobl Hŷn (yn cynnwys dau gôr ysgol gwahanol).
- Gwaith datblygu. Mae RSVP wrthi chwilio am wirfoddolwyr i hyrwyddo gwau mewn prosiect ysgol.

- Dawns y Cymoedd Paid becso am y Bwlch. Prosiect Dawns Rhyng-genedlaethau. Prosiect yn dod â phobl at ei gilydd yn chwe bwrdeistref y cymoedd (Blaenau Gwent, Pen-y-bont, Caerffili, Merthyr Tudful, RCT a Thorfaen). Coreograffydd proffesiynol yn gweithio gyda chyfranogwyr gan arwain at ddau berfformiad yn y cymoedd ac yng Nghanolfan Mileniwm Cymru.
- Adran Hamdden Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, Gwasanaethau Cymunedol
  - Cyngherddau amser cinio a phrynhawn yn Theatr Metropole, Abertyleri
  - Cynnal gweithgareddau'r dydd yn Nawnsfa Beaufort a Theatr Metropole ill dau.
  - Sesiynau Salsa wythnosol yn Nawnsfa Beaufort, Dawnsiau Te yn y Metropole, loga a bol ddawnsio yn y Metropole.
  - Gwaith Partneriaeth gyda Chymunedau'n Gyntaf i gyfranogi pobl hŷn mewn Ymgynghoriad Cymunedol ar gelf gyhoeddus, datblygiadau gweithgaredd newydd, Aberfest ac yn y blaen.

- Cysylltiadau â grwpiau a chymdeithasau cymunedol lleol sy'n perfformio, arddangos neu ymweld â'r lleoliadau (mae pob un yn cynnwys pobl hŷn 50+) yn cynnal y rhain lle bo angen mewn cyrchu grantiau, cyngor a chymorth ar gyfer menter newydd neu barhaol.
- Rhaglen digwyddiadau diwylliannol amrywiol yn y lleoliadau uchod (o opera i felanganau i fale i sinema)
- Anogaeth i ymweliadau teulu i brosiectau gwyliau, gweithdai a sioeau.

- Digwyddiad Cymdeithas Ddeillion Gwent. 'Sut i wneud y gorau o weddill eich golwg, pa fudd-daliadau y mae hawl â chi, y problemau llygad mwyaf cyffredin ar gyfer pobl dros eu trigain' – Coleg Gwent Glyn Ebwy.
- 'Cael Eich Dweud ym Mlaenau Gwent; Cael Eich Dweud ar Wariant y Cyngor' (16.09.08 - 10.10.08). Mae Cyngor Blaenau Gwent yn ymuno â Swyddfa'r Post i wrando ar y cyhoedd drwy gyfrwng sgrin gyffwrdd ac i alluogi'r cyhoedd i fynegi eu barn am fywyd yn y Fwrdeistref Sirol. Yn ogystal, 13 Lleoliad Cymuned neu Leoliad Cyngor fel canolfannau hamdden, llyfrgelloedd. Bydd yr arolwg yn galluogi'r Cyngor i wneud y penderfyniadau gorau ynglŷn â gosod blaenoriaethau ar gyfer y 10-15 blwyddyn nesaf – sut gellir gwella gwasanaethau fel rhan o'r Strategaeth Gymunedol newydd.

2 Cymdeithas sy'n Newid – Statws Economaidd Pobl Hŷn

- Adran Hamdden Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, mentrau Gwasanaeth Cymuned sy'n cynnwys Pobl Hŷn 50+ yn gwirfoddoli yn Theatr Metropole – gweithgareddau blaen y tŷ; cefnogi cadw pobl hŷn mewn cyflogaeth – galluogi pobl i weithio'r tu hwnt i oed ymddeol yn ei lleoliadau; cynnal arddangosfeydd celf gan bobl hŷn 50+.
- Cadw swydd Cydlynydd Dysgwyr Oedolion (a ariannir ar y pryd drwy gyllid datblygu'r Strategaeth ond cyflwynwyd cynnig am ffrwd gyllido amgen i gynorthwyo prosesau 'prif ffrydio').

- Wrth hyrwyddo buddion helaethach dysgu ar gyfer pawb, mae adroddiad Cydlynwyr Dysgwyr Oedolion yn cynnwys y gweithgareddau canlynol;
  - Wythnos Dysgwyr Oedolion. Defnyddiwyd grant £489 oddi wrth NIACE ar gyfer sesiynau blasu technoleg gwybodaeth mewn lleoliadau Llety Cysgodol yn Abertyleri, Blaenau, Cwm a Bryn-mawr. Mynychwyd y sesiynau gan 40 o bobl ac fel canlyniad cofrestrodd 16 o'r cyfranogwyr ar gyrsiau technoleg gwybodaeth hwy.
  - Cynhaliwyd Clwb Creadigol Ebbw Fach i ddarganfod cyllid er mwyn cynnal arddangosfa o bedwar diwrnod i gyd-daro â Gwanwyn (dathlu creadigrwydd pobl hŷn). Adeiladu ar lwyddiant digwyddiad Gwanwyn, mae'r clwb creadigol eisoes yn cynllunio arddangosfa ddyfodol.
  - Clwb TGCh Winchestown – grŵp o gyn-ddysgwyr a gynorthwywyd i ddod yn grŵp annibynnol wedi'i ansoddi a chyflawni ymgais ariannu am wobrau ar gyfer Cymru Gyfan.
  - Prosiect Gorwelion Newydd – grŵp o ddysgwyr hŷn yn llwyddiannus wrth gadarnhau grant o £4,000 oddi wrth Comic Relief i gynnal sesiynau addysgol bob yn ail wythnos a theithiau i leoliadau treftadaeth, gan ddefnyddio trafnidiaeth lwyr hygyrch.
- Lansio Cynllun Mentora Gwirfoddol Prime Cymru yn Theatr Metropole, Abertyleri a recriwtio o ganlyniad mentoriaid gwirfoddol i gynghori a chynorthwyo pobl hŷn cyrchu gwaith / addysg / hyfforddiant / gweithgareddau gwirfoddoli / rhaglenni sgiliau ac yn y blaen.

3 **Iechyd, Lles ac Annibyniaeth**

- Cymdeithas Alzheimer Blaenau Gwent – Taith Goffa Blaenau Gwent, Tredegar – i gynorthwyo pobl sy'n byw gyda dementia a'r rhai sy'n gofalu amdanynt.
- Mewn ymgynghoriad â phobl hŷn a phartneriaid lleol, datblygwyd 'Strategaeth Cwympo' (a arweinir gan y Bwrdd Iechyd Lleol / Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Gwladol). Digwyddiadau ymgynghorol a chynhadledd i gasglu barnau a phrofiadau unigolion sy'n gofalu am bobl hŷn. Mae'r Strategaeth a ddatblygwyd yn cynrychioli

ymateb cymuned-eang / amlasiantaethol ynglŷn â rhwystro a thrin cwympiadau.

- Prosiect Teimlo'n Dda – Ardaloedd Tredegar a Glyn Ebwy. Mentrau Age Concern ar gyfer pobl hŷn a gofalwyr – i wella a chynnal eu hiechyd (Gweithgareddau yn cynnwys Extend, Tai Chi, Hel Atgofion, Cymorth Cyntaf, Cymhorthion ar gyfer Bywyd Beunyddiol, cyngor y Nyrs Arbenigol, cyngor Arbenigol am y galon, esgyrn a rhwystro cwympiadau, iechyd, tân, heddlu a materion gwasanaeth pensiwn.
- Rhoddwyd Gofal Ychwanegol Grŵp Llety Cysgodol ar waith a ffurfiwyd cynllun prosiect i weithredu Datblygiadau Tai cysgodol Gofal Ychwanegol newydd.
- Mae Partneriaeth Cymunedau'n Gyntaf wedi datblygu nifer o fentrau i wella cyrchiad ac argaeledd bwydydd iachach.
- Digwyddiadau wythnosol Gwasanaethau Hamdden Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent (Gwasanaethau Cymunedol) fel y cynghorir uchod (Salsa/Dawnsiau Te/loga/bol ddawnsio).

4 Cyflawni'r Nod

- Asesiad Anghenion Diwygiedig, Blaenau Gwent, a gydlynwyd gan Wasanaethau Cymdeithasol. Gwybodaeth oddi wrth Wasanaethau Cymdeithasol, Hamdden, Gwasanaethau Iechyd ac yn y blaen mewn dogfen gynhwysfawr sy'n cynnwys argymhellion am ddatblygu gwasanaeth.
- Darparwyd Hyfforddiant Asesu Effaith Cydraddoldeb (yn cynnwys Llinyn Cydraddoldeb Oedran) i bob rheolwr awdurdod lleol ac uwch swyddogion.
- Gweithdy Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymunedol (Gwasanaethau Cymdeithasol, Hamdden/Dysgu Gydol Oes) i ystyried heriau a buddion grwpiau eithriedig yn gymdeithasol cael cyrchiad i gyfleusterau cymunedol. Gwella cyrchiad i gyfleusterau a sicrhau bod profion yn bleserus pan gyrchir cyfleusterau cymunedol.
- Gwaith cydlynu Grŵp Uchafu Incwm yn cynnwys Canolfan Budd-daliadau Anabledd, ymgyrch Gofal Piau Hi y Gaeaf

Hwn, menter cynyddu hawlio Budd-dal Tai / Budd-dal Treth Cyngor.

- Strategaeth Orffenedig ar gyfer hyrwyddo Iechyd Meddwl a Lles ym Mlaenau Gwent, Gwasanaethau Iechyd Cyhoeddus Gwladol.
- Cyflawnwyd 'Strategaeth Cwympo' a gydlynwyd gan Fwrdd Iechyd Lleol.
- Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles Blaenau Gwent (2008 - 2011) – Partneriaeth Dyfodol Iachach Blaenau Gwent.
- Gwasanaethau Diwylliannol a Hamdden (Gwasanaethau Cymunedol) – datblygu Strategaeth Chwaraeon a Byw'n Egnïol sy'n cynnwys gwasanaethau penodol ar gyfer pobl hŷn. Sicrhawyd cyllideb i ddatblygu Cynllun Awn Ni Gerdded i ddarparu 'teithiau cerdded carreg drws wedi'u tywys' a arweinir gan arweinwyr cerdded cymwysedig ar gyfer pobl hŷn.
- Gwneud Cartrefi'n Dwymach ac yn Iachach i Fyw ynddynt. Cynorthwyo Pobl Hŷn i Aros yn dwym ac yn iach y Gaeaf hwn. Cynhaliwyd yn VITCC Tredegar digwyddiad un diwrnod codi ymwybyddiaeth Effeithlonrwydd Ynni ar gyfer gweithwyr proffesiynol, a drefnwyd drwy Hyrwyddo Iechyd yn cyrchu cynhaliaeth NEA Cymru.
- Mae adolygiad Strategaeth Blaenau Gwent ar gyfer pobl hŷn 50+ (a seiliedig ar Ddogfen Llywodraeth Cynulliad Cymru Byw'n Hirach / Byw'n Well) yn aros am gyfraniad terfynol aelodau Grŵp Datblygu'r Strategaeth a datblygiad Cynllun Gweithredu 2009/10.

Clive Phillips
Cydlynydd y Strategaeth – Gwasanaethau Pobl Hŷn
Gwasanaethau Cymunedol
Canolfan y Bont
Pont y Ffowndri
Abertyleri
Blaenau Gwent
NP13 1BQ